# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## *CC(3)-12-08 (p1) – 26 Mehefin 2008*

### Diweddariad cyffredinol ar gynnydd ac amlinelliad o amcanion y dyfodol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth

### 1. Diben

Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y prif faterion sy'n gysylltiedig â'm cyfrifoldebau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag ymrwymiadau Cymru'n Un. Yn Atodiad 1 ceir amserlen ar gyfer cyflawni'r rhain.

At hynny, mae'r dystiolaeth yn crynhoi nifer o feysydd polisi allweddol y tu allan i ymrwymiadau Cymru'n Un sydd hefyd wedi bod yn destun llawer o weithgarwch.

Mae'r papur hefyd yn rhoi awgrym o'm prif amcanion polisi ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad.

### 2. Diweddariad ar gynnydd ac amcanion y dyfodol

### Y Celfyddydau

Ers fy mhenodiad ym mis Gorffennaf y llynedd, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu argymhellion Adroddiad Stephens. Prif argymhelliad yr Adroddiad oedd y dylid sefydlu Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau newydd.

Cytunwyd ar gylch gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd y llynedd a chyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd. Y fi yw Cadeirydd y Bwrdd, ac mae ei aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, ac Arts & Business Cymru. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod dair gwaith ers ei sefydlu, ac mae wedi rhoi cyngor ar nifer o feysydd allweddol, yn ogystal â chwarae rhan bwysig yn y gwaith o yrru materion trawsbynciol allweddol yn eu blaen, fel y celfyddydau ac iechyd.

Un arall o brif argymhellion Adroddiad Stephens oedd y dylid sefydlu cwmnïau disglair i annog a gwobrwyo arloesi a rhagoriaeth yn y celfyddydau. Bydd £4.5 miliwn ychwanegol yn cael ei roi i Gyngor Celfyddydau Cymru dros y tair blynedd nesaf i ganfod a datblygu cwmnïau disglair.

Gwnaethpwyd cynnydd hefyd o ran gweithredu agweddau eraill ar agenda Cymru'n Un. Bydd £2.25 miliwn ychwanegol yn cael ei roi i sefydlu Theatr Iaith Saesneg dros y tair blynedd nesaf, ac felly £4.5 miliwn fydd cyfanswm y buddsoddiad dros y tair blynedd nesaf. Oherwydd yr arian hwn, bu'n bosibl dechrau gwireddu'r hen ddyhead hwn. Mae Phil George wedi'i benodi'n

Gadeirydd Bwrdd y Theatr Iaith Saesneg, mae'r Bwrdd llawn hefyd wedi'i benodi ac maent wrthi ar hyn o bryd yn recriwtio Cyfarwyddwr Artistig.

Rhoddwyd £100,000 i Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2007/08 i'w galluogi i gefnogi sefydliad oriel ar gyfer gwaith Kyffin Williams yn Ynys Môn.

At hynny, cryfhawyd ein hymrwymiad i helpu i sicrhau cyfleoedd i gynhyrchwyr artistig Cymru gymryd rhan ar y llwyfan rhyngwladol gan y ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymuno â'r rhaglen 'Cysylltiadau trwy Ddiwylliant' sy'n cael ei harwain gan y Cyngor Prydeinig.

## Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Rwyf yn gweithio ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg, ac fe ddylai alluogi Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un i:

- Gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg
- Cadarnhau hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau
- Sefydlu swydd Comisiynydd Iaith

Mae'r gwaith hwn yn gymhleth, ac yn trawstorri sawl un o bortffolios Llywodraeth y Cynulliad a Whitehall. Mae datblygiad y Gorchymyn wedi bod yn arafach nag yr oeddwn wedi gobeithio, ond mae'r gwaith wedi hen gychwyn erbyn hyn.

Rwyf wedi cynnal trafodaethau ar y Gorchymyn â'r Is-ysgrifennydd Seneddol yn Swyddfa Cymru, ac rydym wedi cychwyn trafodaethau ag adrannau Whitehall.

Byddaf yn gwneud cyhoeddiad arall cyn toriad yr haf.

## Cyfryngau Print yn y Gymraeg

Ar 9 Awst 2007, cyhoeddais fy mod wedi gofyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynnal adolygiad o'r cyfryngau print Cymraeg yng Nghymru.

Penododd Bwrdd yr Iaith Dr Tony Bianchi i gynnal yr adolygiad, ac roedd ei adroddiad 'Adolygiad o'r Cyfryngau Print Cymraeg' yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r cyhoeddiadau oedd o fewn cylch gorchwyl yr adolygiad.

Oherwydd ymrwymiad Cymru'n Un, cyhoeddais ar 5 Chwefror 2008 y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £600,000 dros y tair blynedd nesaf i gyflawni'r ymrwymiad, hynny yw, £200,000 y flwyddyn tan 2011. Mae'r arian hwn yn ychwanegol at y £173,000 y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ei wario drwy Gyngor Llyfrau Cymru ar gyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes cyfrwng Cymraeg.

Ar 30 Ebrill 2008, drwy hysbyseb, gwahoddodd Cyngor Llyfrau Cymru geisiadau am yr arian ychwanegol gan bawb oedd â diddordeb.

Ar 29 Mai 2008 cyhoeddwyd bod Golwg Cyf wedi ennill y tendr i ddarparu gwasanaeth newyddion dyddiol yn y Gymraeg. Bydd y datblygiad newydd yn creu gwasanaeth newyddion dyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cryfhau'r fersiwn argraffedig o Golwg. Bydd hyn hefyd yn arwain at ddatblygu cwmni newyddion cynaliadwy yng ngorllewin Cymru ac yn sefydlogi newyddiaduraeth Gymraeg. Bydd y datblygiad hwn, yn ogystal â chryfhau'r diwydiant, yn sicrhau aml-lwyfannau i'r iaith Gymraeg ac yn creu plwraliaeth yn y sector newyddion Cymraeg.

Bydd Golwg Cyf a Chyngor Llyfrau Cymru yn cydweithio i sicrhau bod y datblygiad newydd hwn yn denu darllenwyr newydd yn y Gymraeg.

## Cynlluniau Iaith Gymraeg Statudol

Cyhoeddais ar 7 Mai 2008 fy mod yn mynd i gyhoeddi enwau 57 o gyrff sy'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, gyda'r bwriad o'u henwi'n gyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 trwy Orchymyn o dan Adran 6 (1) (o) o'r Ddeddf honno.

Cyhoeddwyd hyn ar ôl cynnal ymarfer ymgynghori yng Ngwanwyn 2007, pan wahoddwyd pob un o'r sefydliadau i roi sylwadau ar yr awgrym eu bod i'w cynnwys yn y rhestr.

Gan fod y cyrff hyn wedi'u henwi, bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gallu sicrhau eu bod yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg statudol, a bydd hynny'n cynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg.

## Prif-ffrydio'r Gymraeg

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod materion polisi'r Gymraeg yn parhau i gael eu prif-ffrydio ar draws gwaith Llywodraeth y Cynulliad ac ym mhortffolios yr holl Weinidogion. Bydd swyddogion yn yr Adran Dreftadaeth yn gweithio'n agos â'u cydweithwyr mewn adrannau eraill ac â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i nodi cyfleoedd i hybu'r Gymraeg ym mhob agwedd ar waith y Llywodraeth. Byddaf hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â chyd-Weinidogion i drafod materion sy'n berthnasol i'w portffolios.

## Defnyddio'r Gymraeg yn yr UE

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn iddi gychwyn trafodaethau â Sefydliadau'r UE er mwyn caniatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn amgylchiadau penodol. Gobeithiwn y bydd y cytundeb cyntaf, a fydd yn adlewyrchu'r un ar gyfer Catalaneg, Basgeg a Galiseg, yn cael ei fabwysiadu cyn diwedd yr haf.

## Y Gronfa Radio Cymunedol

Roedd Cronfa Radio Cymunedol o £500,000 dros bum mlynedd yn rhan o'r gyllideb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007/08.

Ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru at y deg gorsaf radio cymunedol gymwys cyn cychwyn y cylch ceisiadau i roi manylion am y gronfa ac i'w gwahodd i ymgeisio.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am arian o'r Gronfa oedd 7 Mai 2008. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar y cyd â swyddogion o Ofcom Cymru.

## Cyfrifon Segur

Ar ôl cyfres o ymgynghoriadau yn haf 2007, cyflwynwyd y Mesur Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur gerbron Senedd y DU yn Nhachwedd 2007. Os daw yn ddeddf, bydd darpariaethau'r Mesur yn ei gwneud yn bosibl i arian mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur gael ei ailfuddsoddi mewn cymunedau lleol at ddibenion cymdeithasol neu amgylcheddol.

O dan delerau'r Mesur, y Gronfa Loteri Fawr fydd yn dosbarthu'r arian ledled y DU a bydd y cronfeydd yn amodol ar yr un egwyddor o ychwanegolrwydd ag arian y Loteri. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi penderfynu sut i wario'r arian yn Lloegr ac wedi nodi'r manylion ar wyneb y Mesur, ac rwyf fi wedi sicrhau pwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwario'r arian yng Nghymru.

Rwyf wedi comisiynu'r Gronfa Loteri Fawr yn ffurfiol i gynnal ymgynghoriad ar flaenoriaethau gwario arfaethedig Cymru a bydd hyn yn cychwyn cyn bo hir. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chyhoeddi ynghylch y swm o arian sydd ar gael, ond amcangyfrifir y bydd Cymru yn cael tua £15 miliwn yn y flwyddyn gyntaf a thua £1-2 filiwn y flwyddyn wedi hynny.

## Chwaraeon

Cafodd 'Dringo'n Uwch – strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol' ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2005 a 'Dringo'n Uwch – y camau nesaf' yng Ngorffennaf 2006. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fonitro'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o effaith ein rhaglenni a gweithgareddau ar weledigaeth Dringo'n Uwch, ac yn dysgu ohoni.

Mae'r adroddiadau cloriannu ar y cynllun Nofio am Ddim ac Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar weithgarwch corfforol yn ein helpu i ystyried sut i fynd i'r afael â'r agenda chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol. Rydym wrthi'n dechrau datblygu cynllun gweithredu gyda'n prif bartneriaid yn y sector. Byddwn yn ystyried hefyd gyfraniad pwysig meysydd polisi eraill at ddarparu rhaglenni sy'n cyfrannu at yr agenda chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Rwyf hefyd yn comisiynu adolygiad o berfformiad a rhagoriaeth i'n helpu i lunio polisi a phenderfynu sut i fuddsoddi yn y maes yn y dyfodol.

## Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Ym Mehefin 2007 cyflwynodd yr Ardd Fotaneg ei Chynllun Corfforaethol ar gyfer 2007-2012, gan ofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i warantu costau ei weithredu.

Yn dilyn trafodaethau manwl â rheolwyr yr Ardd ac wedi ystyried cynigion y Cynllun Corfforaethol yn ofalus, cyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru becyn cyllid diwygiedig ar gyfer yr Ardd. Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru daliad cyfalaf untro o £1.9 miliwn yn 2007/08 a bydd yn darparu £400,000 ychwanegol dros y tair blynedd rhwng 2008 a 2011, ac felly £550,000 y flwyddyn fydd cyfanswm y buddsoddiad blynyddol.

## Dyletswydd Ddiwylliannol Statudol

Mae'r ddogfen Cymru'n Un yn cynnwys ymrwymiad i roi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hybu diwylliant ac annog partneriaethau er mwyn darparu profiadau diwylliannol uchel eu hansawdd ar gyfer eu cymunedau.

Mae'r gwasanaethau a'r gweithgareddau diwylliannol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn bwysig i gymunedau lleol. Nod ymrwymiad *Cymru'n Un* yw cryfhau'r rôl bwysig hon sydd gan awdurdodau lleol.

Bydd angen deddfwriaeth newydd i weithredu'r ymrwymiad. Mae fy swyddogion eisoes wrthi'n symud yr ymrwymiad yn ei flaen ac ar hyn o bryd maent yn nodi ac yn ystyried ystod o opsiynau ar gyfer y ddyletswydd statudol. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod ynghlwm wrth y gwaith cwmpasu cynnar hwn.

Byddwn yn ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd ynglŷn â'r cynigion o ran polisi a deddfwriaeth maes o law. Bydd CLlLC, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn parhau i chwarae rhan amlwg yn natblygiad y ddyletswydd statudol newydd.

## Strategaeth Ddiwylliant i Gymru

Cyhoeddwyd Cymru Greadigol*:* Strategaeth Ddiwylliant *i* Gymru yn Ionawr 2002. Roedd yn amlinellu gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer polisi diwylliannol y degawd nesaf. Un o'm blaenoriaethau yw adolygu cynnydd y strategaeth honno a chynhyrchu strategaeth newydd i Gymru.

Mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn ceisio dod o hyd i'r ffordd orau o gyfuno'r gwaith ar y strategaeth ddiwylliant â symud y ddyletswydd ddiwylliannol statudol yn ei blaen fel bod y ddau brosiect yn cael eu hintegreiddio. Maent hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gynnal cyd-ymgynghoriad ar y ddyletswydd ddiwylliannol statudol a'r strategaeth ddiwylliant newydd er mwyn osgoi, os

oes modd, ymgynghori ddwywaith ar faterion sy'n debyg neu'n gorgyffwrdd ar yr amod bod hyn yn bosibl o fewn amserlen y ddeddfwriaeth ar gyfer y ddyletswydd statudol.

## Trefniadau ariannu newydd ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru

Ym mis Tachwedd 2007 cyhoeddais yn y Cyfarfod Llawn y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arian ychwanegol i'r Ganolfan i sicrhau ei sefydlogrwydd ariannol. Cyhoeddais hefyd ein bod yn bwriadu codi grant refeniw y Ganolfan i £3.7 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2008/09 tan 2010/11.

Hefyd ym mis Tachwedd rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad £1 miliwn i'r Ganolfan, sef y gyfran gyntaf o'r £3.7 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn trafod cytundeb cyllid refeniw newydd â'r Ganolfan sy'n ymdrin â'r £2.7 miliwn arall sydd i'w roi ar gyfer 2008/09, ynghyd â'r £3.7 miliwn arall y flwyddyn ar gyfer 2009/10 a 2010/11. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ar fin cynnal trafodaeth â'r Ganolfan ynglŷn â chylch gorchwyl a methodoleg arfaethedig yr adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Ganolfan a gyhoeddwyd hefyd gan y Gweinidog yn natganiad mis Tachwedd.

## Buddsoddi mewn Llyfrgelloedd

Bydd y rhaglen Llyfrgelloedd am Oes yn buddsoddi £10.5 miliwn, y swm uchaf erioed, mewn llyfrgelloedd rhwng 2008-09 a 2010-11. Gwneir hyn er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a amlinellwyd gennym yn y ddogfen Cymru'n Un.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi ac yn mynd i fuddsoddi trwy CyMAL: Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd fel a ganlyn:

- £1 miliwn y flwyddyn yn y blynyddoedd 2004-2007
- £2.5 miliwn y flwyddyn yn y blynyddoedd 2007-2009 (mae £1.5 miliwn o'r swm hwnnw yn gyllid cyfalaf ar gyfer rhaglen grant i foderneiddio llyfrgelloedd)
- £4 miliwn y flwyddyn yn y blynyddoedd 2009-2011 (mae £3 miliwn o'r swm hwnnw yn gyllid cyfalaf ar gyfer rhaglen grant i foderneiddio llyfrgelloedd)

Bydd y rhaglen Llyfrgelloedd am Oes: Darparu Gwasanaeth Llyfrgell Modern i Gymru 2008-2011 yn ymdrin â'r themâu canlynol:

- Y Rhaglen Datblygu Cyfalaf Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol - i adnewyddu a moderneiddio llyfrgelloedd cyhoeddus gyda'r nod o ddenu defnyddwyr newydd trwy well cyfleusterau
- Datblygu partneriaethau llyfrgell cynaliadwy - i ddatblygu rhwydwaith integredig o lyfrgelloedd, yn cynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus addysgol ac mewn gweithleoedd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd partneriaethau rhanbarthol ledled Cymru yn cyfrannu at gyflawni amcanion lleol a chenedlaethol

- Cyhoeddi a chyflwyno hawl i bawb yng Nghymru gael gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus modern - gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr awdurdodau lleol a Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru
- Datblygu'r ddarpariaeth TGCh - gan gynnwys darpariaeth band eang am ddim, gwasanaethau ar-lein o ansawdd da am ddim, a gwasanaethau newydd fel cyfleusterau Wi-Fi mewn llyfrgelloedd
- Gweithredu Strategaeth Farchnata Genedlaethol *i* Lyfrgelloedd Ebrill 2006 - Ebrill 2011 - gan gynnwys hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd i gynulleidfa ehangach
- Buddsoddi i wella sgiliau'r gweithlu - y staff yw un o'r agweddau mwyaf gwerthfawr sydd gan wasanaethau llyfrgell ac maent yn ganolog i'r ymdrechion i ddatblygu'r gwasanaeth
- Paratoi fframwaith cynllun gwerthuso manwl - i gasglu sylwadau a chynnal dadansoddiadau cyffredinol o berfformiad a thueddiadau yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu Trydydd Fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus.

## Paratoi ar gyfer Casgliad o Hanes y Bobl

Mae creu Casgliad *y* Bobl yn un o ymrwymiadau pwysig *Cymru'n* Un, a'r bwriad yw datblygu ffordd arloesol o gasglu, dehongli, dosbarthu a thrafod treftadaeth ddiwylliannol Cymru mewn amgylchedd ar-lein. Yn dilyn cyfnod datblygu cychwynnol o ddwy flynedd, cynigir bod cynllun rheoli cynaliadwy yn cael ei weithredu yn y drydedd flwyddyn i ddarparu sylfaen ar gyfer datblygiadau'r dyfodol. Mae cyllideb o £850,000 wedi'i nodi ar gyfer 2008-2009, ynghyd â chyllideb ddangosol o £650,000 ar gyfer 2009-2010 a £350,000 ar gyfer 2010-2011.

Yn ogystal â thwristiaeth ddiwylliannol, bydd y rhaglen yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau trawsbynciol eraill gan gynnwys adfywio cymunedol, dysgu gydol oes, ac arbenigedd TGCh.

Yn y trafodaethau cychwynnol â'r tri chasgliad cenedlaethol sy'n cael eu rheoli gan Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru nodwyd bod angen gwneud gwell defnydd o'r adnoddau ar-lein presennol, a bod angen i'r safonau technegol sicrhau gallu i ryngweithredu. Tynnwyd sylw hefyd at yr heriau posibl o ran rheoli hawliau eiddo deallusol ac at bwysigrwydd 'naws am le' wrth gyflwyno a dehongli cynnwys hanesyddol a diwylliannol.

Yn dilyn ysgol ddydd a gynhaliwyd gan Llafur: Cymdeithas Hanes y Bobl ym Mawrth 2008, nodwyd y llinynnau thematig cychwynnol hyn:

- Straeon cymunedol: dwyn ynghyd hanes lleol, hanes teuluol, straeon am gymdeithasau a grwpiau unigol
- Hanes cymdeithasol ieithoedd Cymru: edrych ar hanes unigryw y ddwy iaith genedlaethol ac ieithoedd eraill yng Nghymru
- Cyfraniad gwŷr a gwragedd at hanes a diwylliant Cymru yn y cartref ac yn y gweithle

- Dylanwad chwaraeon a gweithgareddau hamdden ar ddiwylliant a chymdeithas Cymru
- Gwahanol leisiau: edrych ar effaith ymfudo, mewnfudo ac allfudo ar y genedl

Mae gan y tri chasgliad cenedlaethol adnoddau digidol sylweddol ar hyn o bryd, ac fe ellid cael dolenni rhyngddynt a gwefan Casgliad y Bobl er mwyn cael sylfaen gychwynnol i'r cynnwys thematig a gofodol. At y ffynonellau hyn bydd angen ychwanegu ffynonellau eraill sydd eisoes ar gael ynghyd â ffynonellau newydd, yn dibynnu ar drefniadau Hawliau Eiddo Deallusol. Ymhen amser, bydd cyfraniadau gan ddefnyddwyr yn ymestyn yr ystod o ffynonellau fydd ar gael trwy Gasgliad y Bobl.

Bydd rhith-arddangosfeydd dros dro yn tynnu sylw at eitemau a digwyddiadau. Bydd dolenni dynamig â gwefan Croeso Cymru a gwefannau sy'n cael eu rheoli gan Cadw yn darparu cyswllt ychwanegol rhwng y byd rhithwir a'r byd real gan hybu ymweliadau gweithredol yn ogystal â phori ar-lein. Bydd archifau cymunedol a ddatblygwyd o dan raglenni cyllido eraill yn cael eu cysylltu â'r safle a bydd anogaeth i sefydlu archifau ychwanegol.

## Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dau Gorff a Noddir gan y Cynulliad, i sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y gallant fel sefydliadau diwylliannol ac addysgol. Mae'r ddau yn gyrff siartredig ac yn elusennau cofrestredig sy'n derbyn eu prif gyllid trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (yn 2008-09 cafodd Amgueddfa Cymru £24.501 miliwn a'r Llyfrgell Genedlaethol £11.915 miliwn). Dathlwyd eu canmlwyddiant yn 2007.

## Amgueddfa Cymru

Mae gan Amgueddfa Cymru 7 safle ledled Cymru.  Rydw i wedi ymrwymo i barhau mynediad am ddim i ein amgueddfeydd a galeriau cenedlaethol. Yn 2007 trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd arbennig gan gynnwys yr arddangosfa Chwiorydd Davies glodfawr o gelfyddyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Ymwelodd mwy o bobl â'r Amgueddfa yn 2007-08 nag erioed o'r blaen, gydag 1.67 miliwn o bobl yn ymweld â safleoedd yr amgueddfa. Yn ogystal â gofalu am drysorau'r genedl a'u cyflwyno, mae'r amgueddfa yn hanfodol i dwristiaeth ddiwylliannol sy'n denu pobl o Gymru a thu hwnt. Gall hefyd chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adfywio economi fel y dengys safle'r Glannau yn Abertawe.

Rhai o'i phrif ymrwymiadau yw sicrhau bod mwy o bobl yn gweld ei chasgliadau cenedlaethol a chydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid. Un enghraifft yw'r cynllun grant Cyfoeth Cymru Gyfan, sy'n cael ei weinyddu gan CyMAL, ac sy'n galluogi amgueddfeydd ac orielau lleol i wella'u cyfleusterau er mwyn derbyn gwrthrychau ac arddangosfeydd o'r casgliadau cenedlaethol.

Ardal  pwysig arall yw’r rhith-amgueddfa ‘Rhagor’ a lansiwyd y llynedd. Bydd y safle yn borthol ar gyfer rhoi gwybodaeth helaeth yr Amgueddfa am ymchwil a chasgliadau ar-lein a bydd ar gael i bawb ymhobman.

Mae gan Amgueddfa Cymru Gynllun Datblygu 10 mlynedd ar gyfer 2006-16 sy’n anelu at “Greu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol”. Ymhlith yr amcanion allweddol mae sicrhau gwelliannau sylweddol yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays, Caerdydd, er mwyn darparu mwy o le i arddangos casgliadau celf yr Amgueddfa, ac fel y gellir cynnal arddangosfeydd a digwyddiadau pwysig a mawreddog fel Gwobr Artes Mundi. Ochr yn ochr â hyn, mae’n gweithio ar strategaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, a fydd yn cynnwys y rhan fwyaf o’r casgliadau archeolegol sydd ar safle Parc Cathays ar hyn o bryd.

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae’r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth wedi nodi’r blaenoriaethau canlynol yn ei chynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf:

- Datblygu a gweithredu polisïau a strategaethau sy’n adlewyrchu ac yn ymateb i ofynion y Llyfrgell a’i defnyddwyr
- Cynyddu cynulleidfa’r Llyfrgell, gan gynnwys gwella’r cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dwristiaeth ddiwylliannol
- Mynd â gwybodaeth at y defnyddiwr trwy ddigideiddio ac adnoddau digidol cyhoeddedig
- Gwella mynediad defnyddwyr at ei hystod eang o adnoddau, llyfrau, cylchgronau, peintiadau a darluniau, llawysgrifau, mapiau, ffilmiau a deunyddiau clywedol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad i ddefnyddwyr at ddeunydd Cymraeg sydd ar gael mewn fformatiau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio, fel fformatiau fideo a digidol cynnar.

Mae’r mentrau newydd yn cynnwys:

- Adnau Cyfreithiol Electronig – mae’r Llyfrgell yn gweithio mewn partneriaeth â’r Llyfrgell Brydeinig i weithredu Adnau Cyfreithiol Electronig. Mae hyn yn rhan o ddyletswydd statudol y Llyfrgell fel un o 6 llyfrgell Adnau Cyfreithiol y DU ac mae’n cynnwys paratoi systemau a seilwaith i dderbyn deunyddiau adnau cyfreithiol electronig ynghyd â chyhoeddiadau argraffedig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid cyfalaf o £180,000 a chyllid refeniw o £90,000 ar gyfer 2008-09, a chyllid cyfalaf o £120,000 a chyllid refeniw o £90,000 ar gyfer 2009-10.

- Ystafell Ddarllen y Gogledd – mae’r Llyfrgell wrthi ar hyn o bryd yn ailwampio Ystafell Ddarllen y Gogledd fel rhan o’r gwaith parhaus i wella gwasanaethau defnyddwyr a phrofiad yr ymwelydd. Mae £700,000 yn cael ei wario ar yr Ystafell ac mae’r gwelliannau yn cynnwys gosod goleuadau arbennig, darparu gwell cyfleusterau cyfrifiadurol, a chreu mannau astudio arbennig i gynyddu hyblygrwydd y lle a’i wneud yn fwy hygyrch i

ddefnyddwyr. Bwriedir gorffen y gwaith erbyn diwedd 2008 a chafwyd yr arian ar gyfer y gwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac o gronfeydd preifat.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cydweithio â CyMAL a llyfrgelloedd eraill yng Nghymru i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau'r wlad ac i wella mynediad at gasgliadau llyfrgelloedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal a datblygu'r wefan llyfrgell.cymru.org
- Darparu'r system chwilio draws-gatalog 'CATCymru' fel y gellir chwilio catalogau holl lyfrgelloedd Cymru
- Negodi a rheoli trwyddedau i ddefnyddwyr gael mynediad at adnoddau digidol masnachol trwy lyfrgelloedd
- Cymryd rhan mewn mentrau fel Archifau Cymru a Llyfrgelloedd am Oes
- Cydweithredu â Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru a Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru

## Yr Amgylchedd Hanesyddol – Ymrwymiad Cymru'n Un i roi Mynediad am Ddim i Bensiynwyr a Phlant Cymru

Yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mehefin, cyhoeddais y byddai Plant a Phensiynwyr Cymru, o 1 Medi 2008, yn cael mynediad am ddim i henebion Cadw. Ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i wneud hynny yn Cymru'n Un, a chofier hefyd i mi gyhoeddi yng Nghyfarfod Llawn mis Chwefror y byddai pawb yn cael mynediad am ddim i Waith Haearn Blaenafon o'r Pasg diwethaf.

Cyhoeddais hefyd y byddai pawb yn cael mynediad am ddim i Faddonau Caer Rufeinig Caerllion – hefyd o 1 Medi 2008. Fel ym Mlaenafon, mae polisi codi tâl presennol y Baddonau Rhufeinig yn peri dryswch gan fod mynediad am ddim i safle'r Amgueddfa Lleng Rufeinig Genedlaethol drws nesaf, a hefyd i'r amffitheatr a'r barics, ac mae hyn yn atal ymwelwyr rhag ennill dealltwriaeth lawn o gyd-destun hanesyddol ehangach yr henebion.

Mae fy swyddogion yn Cadw yn gweithio ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno Mynediad am Ddim i bensiynwyr a phlant Cymru erbyn 1 Medi 2008. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r polisi mynediad am ddim i Waith Haearn Blaenafon wedi bod yn llwyddiant, ond rwy'n gobeithio y bydd y darlun yn gliriach erbyn mis Medi a bydd gennym wedyn sylfaen ar gyfer llunio polisïau yn y dyfodol.

## Yr Amgylchedd Hanesyddol – Datblygu Datganiad Strategol ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Adeg fy mhenodiad eglurais fy mod yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd hanesyddol, sy'n rhan allweddol o dreftadaeth gyfoethog Cymru. Mae'r amgylchedd hanesyddol ei hun yn bwysig ond rwyf hefyd yn awyddus i weld mwy o synergeddau â rhannau eraill o bortffolio Llywodraeth y Cynulliad fel y gellir gwerthfawrogi cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at ddatblygu ein

mentrau twristiaeth, at adfywio, cynaliadwyedd, cynhwysiant cymunedol ac addysg a dysgu gydol oes.

Gyda hyn mewn golwg, comisiynais fy Ngrŵp Cynghori ar yr Amgylchedd Hanesyddol i helpu i ddatblygu datganiad strategol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Trafodwyd cyngor cychwynnol y Grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff a sefydliadau sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol yn ei ystyr ehangaf, mewn cynhadledd lwyddiannus iawn i randdeiliaid y bûm yn ei hannerch ar 30 Ebrill 2008, ac rwy'n disgwyl derbyn cyngor terfynol y Grŵp yn fuan.

Yng ngoleuni'r cyngor a geir, byddaf yn cyhoeddi fy natganiad strategol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru yn gynnar y flwyddyn nesaf. Bydd yn cynnwys pwyntiau gweithredu allweddol ar gyfer y sector i sicrhau bod yr ased pwysig hwn yn cael ei ddiogelu a'i werthfawrogi er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a buddiannau ehangach Cymru.

## Yr Amgylchedd Hanesyddol – Datblygu System Diogelu Treftadaeth Newydd ar gyfer Cymru a Lloegr

I gadw ein hamgylchedd hanesyddol gwerthfawr, mae'n hanfodol bod gennym system diogelu treftadaeth sy'n bodloni anghenion a gofynion yr unfed ganrif ar hugain. Mae peth o'r ddeddfwriaeth gyfredol wedi bodoli am dros hanner canrif; mae wedi ein gwasanaethu'n dda hyd yma, ond mae angen system glir, modern ac uniongyrchol arnom at y dyfodol, a honno'n dryloyw, yn haws ei deall ac yn atebol.

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth a Phapur Gwyn y llynedd, rwyf fi a'm swyddogion wedi parhau i ddatblygu cynigion o ran diwygio. Ar y cyd â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), cyhoeddwyd Mesur drafft ym mis Ebrill fel y gellid craffu arno cyn y broses ddeddfu. Cynigir creu un Gofrestr o asedau treftadaeth Cymru, i gymryd lle'r systemau amrywiol presennol o restru adeiladau, cofrestru henebion, cofrestru parciau, gerddi a thirweddau hanesyddol, a dynodi llongddrylliadau hanesyddol. Bydd un gyfundrefn cydsyniadau cysylltiedig yn cael ei chreu ar gyfer newidiadau i'r asedau, bydd gwell ymgynghori ar gofrestriadau cynigiedig a bydd hawl statudol i gael adolygiad o benderfyniadau cofrestru.

Yn ogystal â diwygio, mae'r Mesur drafft yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth diogelu treftadaeth gyfredol. Mae'r drafft yn eang ei gwmpas, a chan ei fod yn cynnwys popeth yr ydym yn credu y bydd ei angen arnom at y dyfodol yn y maes hwn nid ydym yn bwriadu ceisio pŵer i lunio Mesur Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Mesur drafft yn cynnig fframwaith hyblyg a fydd yn ein galluogi, trwy is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad, i gael arferion a dulliau gwahanol ar gyfer amgylchiadau Cymreig penodol, yn ogystal â dogfennau canllaw.

Byddaf fi a'm swyddogion yn parhau i gydweithio â'r DCMS a Swyddfa Cymru i ddatblygu diwygiadau'r Mesur drafft. Mae rhaglen ddeddfwriaethol ddrafft Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Mai yn darparu ar gyfer Mesur Diogelu Treftadaeth yn sesiwn 2008-09 Senedd y DU.

## Y Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy

Lansiwyd y Fframwaith Twristiaeth Gynaliadwy yn Nhachwedd 2007. Mae'n amlinellu'r prif heriau o ran twristiaeth gynaliadwy:

- Helpu ardaloedd i ffynnu
- Cynnal lles cymunedau a'u cael i gyfranogi
- Lleihau effaith twristiaeth ar yr amgylchedd
- Diogelu a rhoi gwerth i dreftadaeth naturiol a diwylliant

Mae'r Fframwaith yn amlinellu'r hyn y mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu i'r sector twristiaeth yng Nghymru. Ei ddiben yw rhoi arweiniad i'r rhai sy'n ymwneud â hyrwyddo a datblygu twristiaeth yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Mae Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun wedi nodi mentrau cynaliadwyedd allweddol a bydd yn cynnwys costau manwl a'r arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy.

I helpu gyda hyn mae Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy wedi'i sefydlu sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cynghrair Twristiaeth Cymru a CLILC. Ei nod yw sicrhau bod mentrau i wneud y diwydiant yn fwy cynaliadwy yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig.

## Cyflawni ein Potensial 2006-2013, y Strategaeth Dwristiaeth Genedlaethol

Mae'r strategaeth ddiwygiedig a gyhoeddwyd yn 2006 yn nodi pum her strategol i dwristiaeth yng Nghymru. Mae Croeso Cymru yn gyrru'r strategaeth yn ei blaen, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

- Brand trawiadol – parhau i ddatblygu brand trawiadol a chredadwy sy'n wahanol i bob brand arall ac yn herio canfyddiadau, ac sy'n cael ei gadarnhau ar holl lefelau'r diwydiant.

- Codi safonau – parhau i godi safon y llety er mwyn bodloni disgwyliadau cynyddol uchel ymwelwyr. Angen darparu mwy o atyniadau uchel eu hansawdd sy'n unigryw i Gymru.

- Hygyrchedd – rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am Gymru i ymwelwyr. Cynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus a chysylltiadau awyr uniongyrchol â Chaerdydd. Annog darpariaeth ddigonol ar gyfer pobl ag anghenion arbennig.

- Sgiliau – mae angen i'r sector twristiaeth a lletygarwch gynnig gobaith o yrfa dda a chyfleoedd i ddod ymlaen yn y gwaith. Mae sylw penodol yn

cael ei roi i wella sgiliau rheoli ac arwain, i wella sgiliau pen-cogyddion, ac i godi safon gwasanaethau cwsmeriaid.

- Partneriaeth – diwydiant ar chwâl yw twristiaeth yng Nghymru, felly mae'n bwysig sicrhau cydweithredu effeithiol o fewn y diwydiant a gwaith partneriaeth cryf yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol o ran marchnata a datblygu twristiaeth.

Bydd y dadansoddiad untro o'r diwydiant a'r cynllun gweithredu yr wyf wedi'u comisiynu yn galluogi'r diwydiant i wneud y defnydd gorau o adnoddau Croeso Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan dynnu ar Gyflawni ein Potensial. Rwy'n gobeithio cael y canfyddiadau cychwynnol yn yr haf.

### Yr Adolygiad o Dwristiaeth Ddiwylliannol

Yn 2007 penodwyd ymgynghorwyr i adolygu'r dull cyfredol o ddatblygu a hybu twristiaeth ddiwylliannol. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad ar 26 Mai.

Pwrpas yr Adolygiad oedd asesu a oedd y strategaeth twristiaeth ddiwylliannol gyfredol yn darparu'r fframwaith cywir i wireddu dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol ac asesu a oedd dulliau gweithredu'r strategaeth ar y pryd yn effeithiol. Bu'r Adolygiad hefyd yn asesu cyfraniad economaidd a diwylliannol twristiaeth ddiwylliannol i Gymru, ei photensial yn y farchnad, a faint o flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'w chefnogi.

Yn gyffredinol, canfu'r Adolygiad fod diwylliant yn hanfodol i dwristiaeth ac y dylai fod yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygu a marchnata twristiaeth. Er mwyn symud argymhellion yr Adolygiad yn eu blaen, rwyf wedi sefydlu grŵp llywio gweithredol yn fy adran er mwyn datblygu dull mwy integredig o ddatblygu a marchnata twristiaeth ddiwylliannol. Bydd y grŵp yn edrych yn fanwl ar argymhellion yr Adolygiad ac yn paratoi cynllun gweithredu manwl a fydd yn clustnodi cyllid ar gyfer datblygu twristiaeth ddiwylliannol.

## 3. Goblygiadau ariannol

Mae'r papur Pwyllgor yn disgrifio amcanion diweddaraf yr Adran Dreftadaeth ar gyfer dyfodol. Bydd yr holl weithgareddau a ddisgrifir yn cael eu hariannu trwy ddyraniad presennol MEG Treftadaeth. Nid oes goblygiadau ariannol pellach i'r Cynulliad.

## 4. Argymhelliad

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

Rhodri Glyn Thomas AC
Y Gweinidog dros Dreftadaeth

## Atodiad 1

## Yr Adran Dreftadaeth

## Ymrwymiadau Cymru'n Un

| Rhif yr ymrwymiad | Ymrwymiad Cymru'n Un | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| 58 | Parhau i hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd allanol | Gweithredu | Gweithredu | Gweithredu |
| 59 | Buddsoddiadau strategol mewn cyfleusterau a sgiliau gweithwyr (twristiaeth) | Gweithredu | Gweithredu | Gweithredu |
| 60 | Cefnogi'r diwydiant twristiaeth wrth i'r farchnad symud fwyfwy tuag at wyliau byrrach a gwyliau sy'n seiliedig ar weithgareddau | Gweithredu | Gweithredu | Gweithredu |
| 123 | Cefnogi cynlluniau peilot ar gyfer ysgolion Sadwrn ac ysgolion haf mewn chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Wedi'i gyflawni |
| 124 | Datblygu cyfleoedd i ysgolion a cholegau gydweithio â chlybiau chwaraeon lleol a buddsoddi ymhellach mewn hyfforddiant chwaraeon | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Wedi'i gyflawni |

Allwedd (lliw):

| Lliw | Ystyr |
|---|---|
| Oren (streipiog) | Gwaith paratoadol |
| Gwyrdd | Gweithredu |
| Coch | Wedi'i gyflawni |
| Melyn | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf |

| Allwedd | |
|---|---|
| (oren) | Gwaith paratoadol |
| (gwyrdd) | Gweithredu |
| (coch) | Wedi'i gyflawni |
| (melyn) | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf |

| **Rhif yr ymrwymiad** | **Ymrwymiad Cymru'n Un** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
|---|---|---|---|---|
| 187 | Ceisio ehangu cwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg | Gweithredu | Wedi'i gyflawni | Wedi'i gyflawni |
| 188 | Cadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Wedi'i gyflawni |
| 189 | Cadarnhau hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Wedi'i gyflawni |
| 190 | Sefydlu swydd Comisiynydd Iaith | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Gweithredu |
| 191 | Parhau â'n hymdrechion i sicrhau cytundeb ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr UE | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Gweithredu |
| 192 | Trafod â llywodraeth San Steffan ynghylch gwneud cais swyddogol i Gyngor y Gweinidogion i'r Gymraeg gael statws iaith gwaith a statws iaith swyddogol yn yr UE | Gwaith paratoadol | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf |

| Rhif yr ymrwymiad | Ymrwymiad Cymru'n Un | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| 193 | Cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg | Gwaith paratoadol | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf |
| 196 | Mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau yn parhau | Gweithredu | Gweithredu | Gweithredu |
| 197 | Sefydlu Theatr Genedlaethol Saesneg ei hiaith | Gwaith paratoadol | Gweithredu | Gweithredu |
| 198 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o greu Oriel Genedlaethol i Gymru | Gwaith paratoadol | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf |
| 199 | Rhoi mynediad am ddim i bensiynwyr a phlant i safleoedd treftadaeth a ariennir gan y Cynulliad | Gweithredu | Gweithredu | Gweithredu |
| 200 | Parhau i weithredu argymhellion Adolygiad Stephens | Gweithredu | Gweithredu | Wedi'i gyflawni |
| 201 | Rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac i annog cydweithio | Gwaith paratoadol | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | Wedi'i gyflawni |

Key:

| Colour | Meaning |
|---|---|
| Orange | Gwaith paratoadol |
| Green | Gweithredu |
| Red | Wedi'i gyflawni |
| Yellow | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf |

| **Rhif yr ymrwymiad** | **Ymrwymiad Cymru'n Un** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gwaith paratoadol | |
| | | | Gweithredu | |
| | | | Wedi'i gyflawni | |
| | | | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | |
| 202 | Cefnogi cyfleoedd i gynhyrchwyr artistig o Gymru gymryd rhan ar y llwyfan rhyngwladol | | | |
| 203 | Ystyried cynnwys y cysyniad o *ryddid artistig* yng nghyfraith Cymru, yn amodol ar bwerau newydd y Cynulliad | | | |
| 205 | Cefnogi'r cynnig i sefydlu oriel ar gyfer gwaith Kyffin Williams | | | |
| 206 | Sefydlu casgliad o hanes pobl Cymru, wedi'i gefnogi gan staff curadurol parhaol a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu'r casgliad | | | |
| 207 | Rhaglen bwysig a fydd yn golygu buddsoddi cyfalaf yn ein rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus, a'u hadnewyddu | | | |
| 208 | Parhau i fuddsoddi yn y gwaith o wella TGCh mewn llyfrgelloedd | | | |
| 209 | Parhau i ariannu'r cynlluniau sydd wedi galluogi pobl hŷn a phlant i fwynhau nofio am ddim | | | |

| Rhif yr ymrwymiad | Ymrwymiad Cymru'n Un | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gwaith paratoadol | |
| | | | Gweithredu | |
| | | | Wedi'i gyflawni | |
| | | | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | |
| 210 | Ehangu'r cynllun nofio i blant – rhoi cyfle i *bob* plentyn ddefnyddio cyfleusterau hamdden neu chwaraeon neu byllau nofio am ddim yn ystod y penwythnos | | | |
| 211 | Rhoi mwy o gefnogaeth i gyrff chwaraeon sydd am ddatblygu timau cenedlaethol i Gymru | | | |
| 212 | Buddsoddi mwy o arian mewn chwaraeon yn yr ysgol a hybu gweithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys parhau i gefnogi Campau'r Ddraig a chynlluniau i wella cyfranogiad ymysg merched | | | |
| 213 | Er mwyn helpu chwaraeon ar lawr gwlad, byddwn yn hyfforddi mwy o hyfforddwyr yn unol â'r safonau diweddaraf | | | |
| 214 | Sicrhau bod plant ysgol yn gwneud o leiaf bump awr o weithgarwch corfforol bob wythnos | | | |
| 215 | Cyflwyno rhaglen lwyddiannus ar gyfer Gemau Ysgolion y DU yn 2009 | | | |

| Rhif yr ymrwymiad | Ymrwymiad Cymru'n Un | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | Gwaith paratoadol | |
| | | | Gweithredu | |
| | | | Wedi'i gyflawni | |
| | | | Gweithgarwch yn ddibynnol ar ganlyniad y cam cyntaf | |
| 217 | Gweithio gyda Supporters Direct i helpu i roi mwy o gyfle i gefnogwyr chwaraeon yng Nghymru gael lleisio'u barn ynghylch sut y caiff y clybiau eu rhedeg | | | |
| 218 | Creu mwy o hwyl a chyfleoedd iachach i bobl ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau cerdded, beicio a rhedeg | | | |
| 226 | Datblygu a hyrwyddo brand Cymru | | | |